



Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Gyflawn Ebrill 2015

Mae Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.

Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 10

Llwyddo: 0

Trist yw gorfod nodi na lwyddodd yr un o'r 10 ymgeisydd yn y rownd hon, er bod rhai pethau da yng ngwaith pob un ohonynt. Yn wir, y tro hwn, yn wahanol i'r hyn a welwyd sawl tro yn y gorffennol, ni lwyddodd yr un ymgeisydd i gyrraedd y safon ofynnol yn y naill na'r llall o'r ddau ddarn, gan fod o leiaf un elfen o'r pedair wedi cael gradd 2 neu is. Wedi dweud hynny, ni chafwyd yr un ymgais oedd yn wael ychwaith, gan mai dim ond mewn un achos y llithrwyd o dan radd 2 o gwbl. Beth, felly, sydd wedi atal yr ymgeiswyr hyn, sy'n gallu cynhyrchu gwaith digon di-fai mewn manau, rhag cyrraedd y safon ofynnol i lwyddo ar y lefel hon? Er bod yma rai cyffyrddiadau da, sy'n dangos ôl meddwl, e.e.

dull and uninspiring

manau diflas nad ydynt yn ysbrydoli neb

the car dominates

y car piau hi

y car sy'n teyrnasu

inactive break times

segurdod amser egwyl

roedd hefyd, yn anffodus, ddigonedd o enghreifftiau o gyfieithu trwsgl, llythrennol, na fyddid yn disgwyl eu gweld ar y lefel hon, megis:

dull and uninspiring

yn ddiflas heb fod yn symbylol

parental controls
rheolaethau rhieni

inactive break times
amserau toriad disymud

for pupils to check their appearance
i ddisgyblion wirio'u golwg

Siom arall ar y lefel hon oedd gweld cynifer o ymgeiswyr yn cael trafferth gyda'r gair 'empowerment' – byddai disgwyl bod cyfieithydd profiadol wedi hen arfer â 'grymuso'.

Cafwyd cryn drafferth hefyd gyda pharagraff olaf Darn 1, fel y gwelir o'r enghraifft isod, sydd nid yn unig yn cynnwys enghreifftiau o gamddeall ystyr y gwreiddiol, ond hefyd ddewisiadau geirfa anaddas, ac arddull sydd mor drwsogl mewn manau nes peri i'r darllenydd amau a fyddai'r Gymraeg yn ddealladwy o gwbl heb fedru cyfeirio at y Saesneg:

Pupils were concerned that lunchtime was being eroded, leaving them scarcely enough time to eat, let alone go outside. At one school, pupils were very clear about the fact that going into town was not just about fast food but about being able to walk and talk in a more interesting, private environment than the school grounds.

Roedd yn bryder i ddisgyblion fod mwy a mwy o gyfyngu ar amser cinio, gan adael dim ond digon o amser i fwyta, heb sôn am fynd i'r tu allan. Mewn un ysgol roedd disgyblion yn groyw iawn ynghylch y ffaith nad bwyd parod oedd yr unig reswm dros fynd i'r dre; roedd a wnelo hyn â bod â chael siarad a cherdded mewn awyrgylch mwy diddorol a phreifat na thir yr ysgol.

Gwaetha'r modd, mae enghreifftiau fel y rhain yn creu'r argraff bod yr ymgeiswyr wedi mynd ati i gyfieithu'r geiriau yn unig, heb roi sylw i'r ystyr waelodol a'r neges sydd dan sylw. Cyn mynd ati i gyfieithu, mae angen bod yn hollol sicr ynghylch ergyd y gwreiddiol, er mwyn medru mynd ati i gyfleu'r ystyr honno mewn Cymraeg graenus, naturiol, sy'n argyhoeddi'r darllenydd.

Fel y soniwyd eisoes, ni chafwyd yr un ymgais anobeithiol, ond wedi dweud hynny, cafwyd digonedd o enghreifftiau o gyfieithiadau aflwyddiannus nad ydynt yn dderbyniol ar y lefel hon, a siom yw gorfod nodi hynny. Er bod amodau arholiad yn gallu achosi ambell lithriad mewn gwaith sydd fel arall yn lân, hyd yn oed o ganiatáu rhai mân frychau o'r fath, ni welwyd bod gwaith yr un o'r ymgeiswyr yn y rownd hon yn ddigon gloyw i fedru cael ei ystyried yn gyfieithiad proffesiynol, na fyddai angen ei ddiwygio na'i gywiro. Gobeithio, felly, y bydd pob un o'r ymgeiswyr hyn yn mynd ati i fireinio'u sgiliau ymhellach, er mwyn medru llwyddo pan roddant gynnig arall arni.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 4
Llwyddo: 0

Yn anffodus ni chafwyd yr un ymgeisydd llwyddiannus i'r Saesneg ychwaith yn y rownd hon, a siom fawr yw gorfod nodi hynny. Fel mewn sawl arholiad blaenorol, er bod cyffyrddiadau da yng ngwaith pob un o'r pedwar ymgeisydd, anwastad oedd y safon, a theimlid nad oedd gan yr un o'r pedwar afael gwbl gadarn ar batrymau naturiol yr iaith Saesneg.

Fel sy'n digwydd yn aml ar y lefel gyflawn, lle mae disgwyl i ymgeiswyr fedru ymdopi ag unrhyw destun (o fewn rheswm), dewiswyd darn cyntaf oedd yn trafod maes nad yw o reidrwydd yn rhan o brofiad pawb. Wedi dweud hynny, mae disgwyl rhyw lefel o wybodaeth gyffredinol gan gyfieithydd, a syndod felly oedd gweld nad oedd 2 ymgeisydd yn gyfarwydd â'r term Grand Master ym maes gwyddbwyll, a bod enghreifftiau hefyd o fethu â defnyddio'r eirfa briodol am 'arms race' a 'superpowers'. Mae modd, wrth gwrs, i nerfau ystafell arholiad gael effaith ar rai ymgeiswyr, a pheri i ambell derm digon cyfarwydd fynd yn angof, ond mewn achos felly, dylai'r ymgeisydd dan sylw fanteisio ar y cyfle i nodi'r drafferth a gafwyd mewn troednodyn, er mwyn dangos, o leiaf, fod crafu pen wedi digwydd!

Wedi dweud hynny, cafwyd un ymgeisydd yn y rownd hon oedd heb ddeall pwrpas y troednodiadau, gan iddo/iddi eu defnyddio i gynnig cyfieithiadau eraill posibl, yn hytrach nag i egluro unrhyw drafferthion a gafwyd. Mae gwneud hynny nid yn unig yn creu argraff o fod yn ansicr, ond hefyd yn gallu golygu bod amser yn cael ei golli'n ddi-fudd. Dylid ceisio sicrhau bod pob troednodyn yn gryno ac yn bwrpasol.

Fel y byddid yn gobeithio ar y lefel hon, cafwyd nifer o enghreifftiau o gyfieithu da, creadigol, e.e.:

ac yntau ond yn bymtheg oed
at the tender age of fifteen

[b]achgen anhydryn, anghwrtais ond athrylithgar
a headstrong, ill-mannered but highly gifted boy

[t]orri crib y Sofietaid
bring the Soviets down a peg or two
cut the Soviets down to size

[rh]agoriaeth ddeallusol a disgyblaeth ddiwyro'r Dyn Sosialaidd
the intellectual prowess and unwavering discipline of Socialist Man

bregliach bas
empty gibberish

Ond yn anffodus, ochr yn ochr ag enghreifftiau fel y rhain, cafwyd hefyd enghreifftiau o ymadroddi nad yw'n taro deuddeg yn Saesneg, e.e.:

no-one esteemed chess more than the former Soviet Union
no-one had enough of an answer
the one's talent was developed

four others of his compatriots

enghreifftiau eraill sy'n colli neu'n llurgunio ystyr y gwreiddiol:

the argument regarding the use of English (yn lle 'debate')

use Welsh correctly (yn lle 'use correct Welsh')

communion and capitalism (yn lle 'communism')

promising sportspersons (yn lle 'players')

ac enghreifftiau eraill eto sy'n taro'n glust mor chwithig nes bod bron yn ddiystyr:

words that have long passed into acceptable usage

the two Archpower's competitive spirit extended in various other directions

Er bod rhai pethau da gan bob un o'r ymgeiswyr hyn, felly, mae angen hefyd i bob un ohonynt fynd ati i fireinio'u crefft ymhellach, er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu mwy o feistrolaeth ar y Saesneg a'i chyweiriau. Rhaid cyflwyno cyfieithiad sy'n argyhoeddi ac sy'n llifo'n naturiol yn yr iaith darged, yn ogystal â chyfleu holl ystyr y gwreiddiol, i lwyddo ar y lefel hon.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch i'r holl farcwyr am eu gwaith trylwyr, ac i staff y swyddfa am bob cymorth. Diolch o galon i'r tîm cyfan am hwyluso gwaith y Prif Arholwr i'r fath raddau.

Fiona Gannon
Mehefin 2015